


# MIS MAWRTH



## RAP GŴYL DDEWI

Mis Mawrth – daw Dydd Gŵyl Ddewi  
Âi falchder i ni'r Cymry.

Gyda'n gilydd – dathlu'n llon,  
Cennin Pedr ar ein bron.

Non y fam a Sandde'r tad  
Roddodd i ni nawddsant gwlad.

Addysg yn Llanilltud Fawr,  
Bu yn fynach ar y llawr.

Yng Nglyn Rhosyn cododd le  
I addoli Arglwydd Ne'.

'Gwnewch y pethau bychain hyn'  
Oedd ei neges ar y bryn.

Cofiwn felly Gymry oll  
Neges Dewi yn ddi-goll.

Rhannwn bawb ein cariad triw  
Tra yn rhodio daear Duw.

**EMYN GŴYL DDEWI**  
(*Tôn – ‘Hen Wlad Fy Nhadau’*)

Gŵyl Ddewi a ddethlir gan Gymry sy'n llon,  
A gwisgwn genhinen mewn balchder ar fron;  
Ein nawddsant a gofiwn â'i neges oedd fawr,  
Wrth draethu i'r bobl ar lawr.

*CYTGAN*      Sant, Sant – Cofiwn am Ddewi ein Sant,  
Ar Fawrth y cyntaf lleisiwn gri  
Fel Cymry gwladgarol eu bri.

Sefydlodd eglwysi drwy'r wlad ar ei hyd,  
Fel mynach yn rhannu ei neges i'r byd,  
A dysgodd am Iesu a'i gariad mor wiw –  
Gan wneuthur gweithredoedd oedd driw.

A heddiw rhaid arddel ein Cymro yn wir  
A byw geiriau Dewi mewn ffordd sydd yn bur;  
Cyflawnwn ddaioni a chanwn fel côr,  
Rhown foliant i gennad yr Iôr.

## TRIBANNAU GŴYL DDEWI

Mis Mawrth yw mis ein nawddsant,  
Mis Dewi mab gogoniant,  
A chofiwn am ei neges fawr  
Tra ar y llawr – rhown foliant.

Bu hwn yn efengylu,  
Yn crwydro a chenhadu,  
Daeth torf i wrando arno'n driw  
Gan droi at Dduw heb gablu.

Non ydoedd fam mor dyner,  
A'i dad yn fawr ei bŵer,  
O dras brenhinol daeth y gŵr –  
Gan yfed dŵr oedd lawer.

Y tir fel bryn a gododd  
A phawb yn wir a'i gwelodd,  
Llanddewi Brefi oedd y lle –  
A geiriau'r Ne' lefarodd.

Gŵyl Ddewi – cofiwn ninnau  
'Y pethau bychain' hwythau,  
A thrwy ein bywyd, ceisiwn fyw  
Dan adain Duw a'i wenau.

## ANERCHIAD GŴYL DDEWI

Ar y cyntaf o fis Mawrth rydym yn cofio am Ddewi Sant. Fe'i ganwyd mewn lle o'r enw Henfynw ger Aberaeron, er bod rhai yn ei gysylltu â Chapel Non gerllaw Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Enw ei fam oedd Non ac enw ei dad oedd Sandde – sef brenin Ceredigion.

Yn ei fynachlog, roedd gan Dewi reolau llym. Roedd yr oriau gweddio yn hir, bara a dŵr yn unig oedd y bwyd arferol ac roedd y gwaith yn galed. Roedd rhaid gwneud yn siŵr nad oedd neb yn meddu ar arian gan fod angen i bawb ymrwymo i dlodi. Oherwydd ei ffordd syml o fyw, rhoddwyd iddo'r enw 'Dewi Ddyfrwr'.

Unwaith, pan oedd e'n pregethu i dyrfa fawr o bobl yn ardal Llanddewi Brefi, fe gododd y ddaear oddi tano. O ganlyniad, roedd pawb yn gallu ei weld e. Hefyd, dywedir bod colomen wedi disgyn ar ei ysgwydd.

Mae 'na stori enwog am Dewi pan oedd e ar un o'i deithiau pregethu. Daeth i le o'r enw Glyn Rhosyn. Roedd y tywydd yn oer ac er mwyn cadw'n gynnes cyneuodd Dewi a'i wŷr dân yno. Cododd mwg du o'r tân a hynny'n uchel i'r awyr. Perchennog Glyn Rhosyn oedd person o'r enw Boya a phan welodd yntau'r mwg yn yr awyr, dechreuodd ofidio. Casglodd Boya ei filwyr at ei gilydd a gorymdeithio i Lyn Rhosyn i ladd Dewi. Ond cyn iddyn nhw gyrraedd, cyflawnodd Dewi wyrth. Syrthiodd twymyn ar filwyr Boya ac yna fe syrthiodd ei holl anifeiliaid yn farw. Aeth Boya i weld Dewi, a gofyn iddo am faddeuant. O ganlyniad, rhoddodd Boya'r tir a oedd yng Nglyn Rhosyn fel rhodd i Dewi a daeth bywyd yn ôl i'w filwyr a'i anifeiliaid. Yma, wedyn, yr adeiladwyd mynachdy hardd a chafodd Dewi ei wneud yn bennaeth yno.

Bu Dewi farw yn y fynachlog ar y dydd cyntaf o fis Mawrth yn y flwyddyn OC 588 a dyna pam y cofiwn am ein nawddsant ar y diwrnod arbennig hwn. Gydag amser, adeiladwyd eglwys hardd yn y fangre yma. Yno heddiw mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi wedi'i lleoli.

Neges fawr Dewi Sant oedd – 'Byddwch lawen a chadwch y ffydd. Gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i.'

Cofiwn ei neges yng Nghymru heddiw gan wneud y 'pethau bychain' yn ein bywyd bob dydd. Cofiwn am yr hen a'r unig, y rhai sy'n ddigartref, a'r rhai hynny yn ein byd sy'n dioddef o dlodi. Ceisiwn ddangos cariad Crist ym mhob peth a wnawn – yr un fath â Dewi Sant.